



Helen Thomas, Prif Weithredwr Dros Dro
Iechyd a Gofal Digidol Cymru
Ty Glan yr Afon
21 Cowbridge Road East
Caerdydd
CF11 9AD
helen.thomas5@wales.nhs.uk

31 Mawrth 2021

Annwyl Helen,

Casglu data at ddibenion defnydd eilaidd gan Iechyd a Gofal Digidol Cymru

Cyn i Iechyd a Gofal Digidol Cymru ("DHCW") gael ei lansio'n swyddogol ar 1 Ebrill 2021, rwyf yn ysgrifennu i gadarnhau'r gofyniad i barhau i ddefnyddio a darparu'r llwyfannau, systemau a gwasanaethau a oedd yn cael eu gweithredu gynt gan Wasanaeth Gwybodeg GIG Cymru ("NWIS") ar gyfer casglu, prosesu a dadansoddi data, at ddibenion gofal uniongyrchol ac anuniongyrchol.

Rwyf yn ymwybodol bod amwysedd wedi bod mewn rhai meysydd ynghylch statws NWIS o ran casglu a lledaenu data'r gwasanaeth iechyd, gan adlewyrchu ei drefniadau cynnal hanesyddol.

Mae gan DHCW statws mwy sicr. Mae erthygl 3(b) o Orchymyn Iechyd a Gofal Digidol Cymru (Sefydli ac Aelodaeth) 2020 yn darparu y gall Gweinidogion Cymru roi cyfarwyddyd i Iechyd a Gofal Digidol Cymru mewn cysylltiad â "casglu, dadansoddi, defnyddio a lledaenu data'r gwasanaeth iechyd". Mae hyn yn cael ei gadarnhau ymhellach trwy Gyfarwyddydau Iechyd a Gofal Digidol Cymru (Rhif 2) 2021 ("y Cyfarwyddydau Swyddogaethau") a Gorchymyn Iechyd a Gofal Digidol Cymru (Trosglwyddo Staff, Eiddo, Hawliau ac Atebolwyddau) 2021, sy'n darparu ar gyfer trosglwyddo swyddogaethau NWIS o Ymddiriedolaeth GIG Felindre i DHCW.

Er mwyn osgoi amheuaeth, dylai Iechyd a Gofal Digidol Cymru gasglu, prosesu, defnyddio a lledaenu data am y Gwasanaeth Iechyd, gan ddefnyddio'r llwyfannau, systemau a gwasanaethau a oedd yn cael eu gweithredu gynt gan NWIS. Nodir rhestr o'r swyddogaethau hynny yn yr Atodiad i'r llythyr hwn. Yn ogystal, bydd Iechyd a Gofal Digidol Cymru'n darparu llwyfannau, systemau a gwasanaethau pellach a gaiff eu datblygu a'u darparu yn unol â'r Cyfarwyddydau Swyddogaethau, a dylid defnyddio'r wybodaeth hon at ddibenion gofal uniongyrchol ac anuniongyrchol, i gefnogi gwella iechyd a gofal i drigolion Cymru.

Yn Gywir,

Ifan Evans

Technoleg, Iechyd Digidol a Thrawsnewid
Llywodraeth Cymru - y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol



ATODIAD

DATA GWASANAETH DEFNYDD EILAIDD

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

1. Ffyrdd Penodedig o Ddefnyddio Data

- (a) darparu, dylunio, rheoli, datblygu a chyflenwi llwyfannau, systemau a swyddogaethau digidol;
- (b) casglu, dadansoddi, defnyddio a lledaenu data'r gwasanaeth iechyd;
- (c) cefnogi cyrff ac unigolion a nodir mewn cyfarwyddydau a roddir gan Weinidogion Cymru i DHCW mewn perthynas â materion sy'n berthnasol i llwyfannau, systemau a gwasanaethau digidol;

2. Casglu Data:

- (a) Cronfa Ddata Cyfnodau Gofal Cleifion Cymru (PEDW)
- (b) Cronfa Ddata Genedlaethol ar Iechyd Plant Cymunedol (NCCHD)
- (c) Statws Preswylwyr Sefydlog i Ddinasyddion yr UEE (EUSS) and data'r Gordal Iechyd Mewnffudo (IHS)
- (d) unrhyw wybodaeth episodig am drigolion Cymru fel y mae wedi'i phrosesu gan sefydliadau iechyd a Gofal y tu allan i GIG Cymru
- (e) Data am Archwiliadau Clinigol Cenedlaethol

3. Prosesu a Lledaenu Data

Yn ogystal â'r setiau data ag y mae'r gwasanaeth yn gofyn amdano wrth arfer:

- (a) Gofal uniongyrchol
- (b) Cynllunio gofal iechyd
- (c) Comisiynu a dilysu gwasanaethau
- (d) Gofal iechyd sy'n seiliedig ar werth
- (e) Ad-dalu'r Tariff Cenedlaethol
- (f) Datblygu polisi cenedlaethol
- (g) Cefnogi anghenion gwybodaeth y Byrddau Iechyd wrth reoli eu hadnoddau a gwasanaethau.
- (h) Cefnogi'r gwaith o reoli a chynllunio gwasanaethau iechyd
- (i) Hwyluso ymchwil feddygol gyffredinol a swyddogaethau ystadegol
- (j) Nodi materion iechyd y cyhoedd
- (k) Monitro gwelliannau yn iechyd y cyhoedd ar ran sefydliadau eraill sy'n gyfrifol am ddarparu iechyd y cyhoedd
- (l) Datblygu, monitro a gwerthuso polisiâu'r llywodraeth, a chefnogi gwaith Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru
- (m) Cyfrannu at gynhyrchu cyhoeddiadau ystadegol Llywodraeth Cymru
- (n) Gwella profiad y claf neu'r gofalwr
- (o) I gefnogi gwybodaeth a brosesir fel rhan o gasglu a thalu am gyffuriau a weinyddir gan Fferyllfeydd Cymunedol
- (p) I gefnogi gwybodaeth a brosesir fel rhan o drafodiadau trwy gyflenwi gwasanaethau ychwanegol gan Fferyllfeydd Cymunedol